



Trosolwg a Chraffu

Adroddiad Blynyddol 2018-19

Rhagair

Croeso i Adroddiad Craffu Blynyddol Cyngor Sir Penfro sy'n hoelio sylw ar waith ein pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2018-19. Mae'r broses Trosolwg a Chraffu yn elfen hanfodol o strwythur democrataidd a fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae ganddi rôl allweddol o ran cadw llygad craff ar y modd y darperir gwasanaethau'r Cyngor ac ar eu perfformiad, ac o ran bod gwneuthurwyr penderfyniadau yn atebol drwy ymagwedd sy'n seiliedig ar bwysau cadarnhaol a herio adeiladol.

Bu'n flwyddyn ddiddorol ac fe welwch ledled yr adroddiad hwn fod pob un o'r pum Pwyllgor – Gwasanaethau, Corfforaethol, Polisi a Chyn Penderfynu, Partneriaethau, ac Ysgolion a Dysgu – wedi rhoi sylw i nifer o bynciau sy'n bwysig inni fel Aelodau etholedig ac i'r trigolion a wasanaethwn. Hoffem ddiolch i'n holl gydweithwyr am eu cyfraniad at waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eleni.

Rydym ni, Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, yn cydnabod ein cyfrifoldeb ar y cyd o ran cydweithio i gryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy wneud gwaith craffu sy'n rhoi bod i werth ychwanegol, a'r nod yw dal i amlygu ein hymrwymiad ar y cyd i ganolbwyntio ar y materion sy'n cyfrif fwyaf i drigolion Sir Benfro yn ystod y 12 mis nesaf.



Y Cynghorydd Brian Hall
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol



Y Cynghorydd David Bryan
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau



Y Cynghorydd Guy Woodham
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu



Y Cynghorydd John Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu



Y Cynghorydd Rob Summons
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau

Y Cynnwys

1. Trosolwg a Chraffu yn Sir Benfro	4
2. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol	6
3. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau	10
4. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu	14
5. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu	18
6. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau	22
7. Arolwg o'r Aelodau	26
8. Edrych ymlaen at 2018-19	35
9. Cymryd rhan	37

1. Trosolwg a Chraffu yn Sir Benfro

Mae Trosolwg a Chraffu yn elfen allweddol o fframwaith democrataidd a llywodraethu Cyngor Sir Penfro. Ei rôl yw helpu i ffurfio a datblygu polisiau, canfod tangyflawniad a herio hynny, cryfhau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod y Weithrediaeth yn atebol am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Yn fynych ystyrir Craffu fel 'cyfaill beirniadol', a thrwy herio'n adeiladol ac estyn cymorth mae'n ceisio rhoi sicrwydd i bobl ynghylch gweithredoedd a phenderfyniadau'r Cyngor.

Mae Trosolwg a Chraffu yn ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a gyflwynodd newidiadau mawr i'r modd y mae Cynghorau yn gwneud penderfyniadau. O ganlyniad i'r Ddeddf galluogwyd Cynghorau i gyflwyno strwythurau gwleidyddol newydd, gan gynnwys model Arweinydd a Chabinet (y Weithrediaeth) a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Y Weithrediaeth sy'n gyfrifol am wneud y prif benderfyniadau ynghylch gwasanaethau yn unol â'r polisiau a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn monitro perfformiad, yn cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisiau, ac yn ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar y Sir a'i thrigolion. Un o swyddogaethau eraill Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw cydbwyso pwerau'r Weithrediaeth, lle bo angen, gan ddal y Weithrediaeth i gyfrif drwy archwilio a chwestiynu ei phenderfyniadau. Yn syml ddigon, swyddogaeth Craffu yw galluogi'r Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Weithrediaeth i ddylanwadu ar y modd y gall y penderfynwyr weithio mewn modd mwy effeithiol er budd y bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am ddatblygu eu rhaglenni gwaith eu hunain ac fe'u hanogir, yng nghyd-destun y pynciau y mae'n dewis craffu arnynt, i fabwysiadu ymagwedd wedi'i blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg ac sy'n hoelio sylw ar ganlyniadau. Mae'n bwysig nodi na all Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wneud penderfyniadau; dim ond cyflwyno argymhellion y mae Pwyllgor yn gallu ei wneud. Mater i'r Weithrediaeth yw penderfynu a yw am dderbyn neu wrthod yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor.

Ym mis Mawrth 2016, yn sgil yr adolygiad gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r argymhellion yn Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru o Gyngor Sir Penfro yn 2015, pleidleisiodd y Cynghorwyr dros gyflwyno pump o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu newydd o fis Medi 2016 ymlaen i gymryd lle'r Pwyllgorau 'thematig' blaenorol.

Cyflwynwyd y model newydd hwn ar ffurf trefniant prawf gyda golwg ar hoelio sylw'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar yr agweddau allweddol ar fusnes y Cyngor: materion Corfforaethol, Partneriaethau, Polisi a Chyn Penderfynu, Ysgolion a Dysgu, a Gwasanaethau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn bwrw trosolwg ar waith pob un o'r

pum Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf, gan dynnu sylw at rywfaint o'r gwaith da a'r canlyniadau cadarnhaol yn ogystal â rhai o'r heriau y mae'r Pwyllgorau yn eu hwynebu.

Hefyd dylid nodi, yn dilyn cynnal y cyfnod prawf, fod y model craffu wedi bod yn destun adolygu a gwerthuso yn ystod 2018, a bod y Cyngor wedi cytuno ym mis Mai 2019 ar argymhellion i ddiwygio a gwella rhagor ar y strwythur craffu. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain yn yr adran "Edrych Ymlaen" o'r adroddiad hwn.

Yn ogystal, ar gyfer adroddiad blynyddol eleni yr ydym wedi cynnal arolwg o'r Aelodau ac mae hynny'n rhoi darlun mwy cyflawn o'r modd y mae'r swyddogaeth graffu yn gweithio ar hyn o bryd yn y Cyngor. Mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar farn unigolion er mwyn deall beth sy'n gweithio'n hwylus a beth y gellid ei wneud yn well, er mwyn inni ddal i wella effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu.

2. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

Ei rôl a'i gylch gorchwyl

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yw adolygu'r swyddogaethau corfforaethol a'r gwasanaethau cefnogi a chraffu arnynt, ac mae ei gwmpas yn cynnwys bwrw trosolwg ar gyfeiriad strategol cyffredinol, polisiau, cynlluniau a blaenoriaethau'r Cabinet (drwy'r Rhaglen Weinyddu) a'r Cyngor (ar ôl gwneud penderfyniad), ynghyd â monitro'r cyfryw fel bo'n briodol.

Hefyd mae cwmpas y Pwyllgor yn cynnwys craffu ar y gwasanaethau cefnogi corfforaethol drwy ddatblygu ymagwedd ar sail risg gan ddefnyddio gwybodaeth reoli berthnasol megis Cynlluniau Trawsnewid Gwasanaethau, mesurau perfformiad, risg busnes, ac adroddiadau arolygu/rheoleiddio allanol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cwmpasu'r canlynol yn benodol:

Y swyddogaethau corfforaethol:

- Swydd yr Arweinydd
- Adroddiadau blynyddol Aelodau'r Cabinet
- Y Prif Weithredwr
- Monitro'r gyllideb (yn flynyddol ac yn chwarterol)
- Monitro'r perfformiad corfforaethol (yn flynyddol ac yn chwarterol)
- Cynllunio corfforaethol
- Adroddiadau corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru
- Gwella gwasanaethau
- Diogelu corfforaethol

Y gwasanaethau corfforaethol:

- Y Gwasanaethau Ariannol
- Technoleg Gwybodaeth
- Archwilio a Risg
- Y Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Adnoddau Dynol
- Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau
- Caffael
- Marchnata a Chyfathrebu
- Y Gwasanaethau Etholiadol

Yr Aelodau

Y canlynol yw aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:

Y Cyngorydd Brian Hall, y Cadeirydd (Annibynnol)
Y Cyngorydd Samuel Kurtz, yr Is-gadeirydd (Ceidwadwr)
Y Cyngorydd John Cole (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cyngorydd Jon Harvey (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cyngorydd David Howlett (Ceidwadwr)
Y Cyngorydd Michael John (Annibynnol)
Y Cyngorydd Stephen Joseph (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cyngorydd Reg Owens (Annibynnol)
Y Cyngorydd Michael Stoddart (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cyngorydd Alison Tudor (Llafur)
Y Cyngorydd Thomas Tudor (Llafur)
Y Cyngorydd Jacob Williams (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cyngorydd Michael Williams (Plaid Cymru)

Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2018-19

I raddau helaeth mae rhaglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn cael ei gyrru gan yr amserlen cynllunio corfforaethol ac ariannol, ynghyd ag adolygu'r gyllideb a chanlyniadau perfformiad, a datblygu amcanion strategol y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor rôl eang mewn perthynas â goruchwyllo'r cynnydd o ran Rhaglen Drawsnewid y Cyngor a hefyd mae'n bwrw trosolwg ar faterion diogelu corfforaethol.

Mehefin 2018

- Adroddiad Monitro Cyllideb Alldro y Cyngor Sir 2017-18
- Monitro'r Rhaglen Drawsnewid
- Adolygiad o'r Gwasanaethau Corfforaethol – TG
- Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2017-18

Medi 2018

- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Trosolwg a Chraffu – Barod at y Dyfodol?
- Cyflwyniad Amser i Newid
- Adolygiad o'r Gwasanaethau Corfforaethol – y Gwasanaeth Archwilio a Risg
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb – Chwarter 1 2018-19
- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol 2018/19
- Adolygiad Gwella Drafft 2017/18
- Monitro'r Rhaglen Drawsnewid
- Rhybudd o Gynnig ynghylch Oedran Pleidleisio
- Adroddiad ynghylch Diogelu Data yn Lleol

Tachwedd 2018

- Adolygiad o'r Gwasanaethau Corfforaethol – y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau
- Monitro'r Gyllideb Integredig – Chwarter 2 2018-19
- Rheoliadau Ariannol
- Rheolau Trefniadaeth Contractau
- Monitro'r Rhaglen Drawsnewid
- Rhybudd o Gynnig ynghylch Barn Gyfreithiol
- Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2017-18
- Atgyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio ynghylch Cyfathrebu Mewnol mewn perthynas â chŵyn gan y Cyngor a gyflwynwyd i Heddlu Dyfed-Powys

Ionawr 2019

- Atgyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio ynghylch Cyfathrebu Mewnol mewn perthynas â chŵyn gan y Cyngor a gyflwynwyd i Heddlu Dyfed-Powys
- Ymateb i gwestiwn gan y cyhoedd yng nghyfarfod llawn y Cyngor
- Cyllideb Ddrafft y Cyngor Sir 2019-20 a Chynllun Ariannol Cyfnod Canolig 2019/20 tan 2022/23
- Adolygiad o'r Gwasanaethau Corfforaethol – Caffael
- Monitro'r Rhaglen Drawsnewid

Mawrth 2019

- Adroddiad ynghylch Monitro'r Gyllideb Integredig - Chwarter 3
- Cynllun Corfforaethol 2019-20
- Adolygiad o'r Gwasanaethau Corfforaethol – Etholiadau
- Yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Datgelu Camarfer
- Monitro'r Rhaglen Drawsnewid
- Rhybudd o Gynnig ynghylch y Cynllun Grantiau Eiddo Masnachol yn Noc Penfro
- Rhybudd o Gynnig ynghylch cwyn a gyflwynwyd i Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed Powys

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Bu gan y Pwyllgor ganolbwynt penodol ym mhob cyfarfod eleni gan graffu ar feysydd gwasanaethau corfforaethol unigol megis TG, Archwilio a Risg, Caffael, y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau, a'r Gwasanaethau Etholiadol. Hyn fu un o brif fanteision cyflwyno Pwyllgor sydd â chanolbwynt Corfforaethol, gan alluogi'r Aelodau Craffu i fwrw goleuni ar rannau o'r sefydliad oedd wedi'u hesgeuluso o dan y model blaenorol a oedd yn seiliedig ar gyfarwyddiaethau. Yn sgil hyn cryfhawyd craffu gan yr Aelodau a chyfnerthwyd dealltwriaeth gyffredinol o holl feysydd y Cyngor.

Mae gan y Pwyllgor rôl bwysig o ran rhoi sicrwydd ynghylch cyfrifoldebau a threfniadau diogelu corfforaethol y Cyngor, ac o ran peri bod heriau ychwanegol ynghylch gweithredu Rhaglen Drawsnewid y Cyngor a hynny drwy fwrw trosolwg ar gofnodion y Bwrdd Trawsnewid a thrwy gael diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd gan yr Aelod o'r Cabinet.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, oherwydd ei natur mae gwaith y Pwyllgor yn hoelio sylw ar bolisiau corfforaethol a rheolaeth ariannol yr Awdurdod, ac felly mae gwaith y Pwyllgor wedi'i bwysoli'n bendant tuag at adolygu perfformiad ariannol yn y gorffennol a chraffu ar ddatblygu cynigion ynghylch trefniadau cynllunio corfforaethol strategol allweddol. Trwy wneud hynny mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod y Cyngor yn dal i roi gwerth eu harian i drigolion Sir Benfro yn unol â'r gyllideb, ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau corfforaethol statudol craidd.

Mae'r Pwyllgor wedi gwerthfawrogi cyfraniad Aelodau'r Cabinet o ran cefnogi adolygu meysydd gwaith penodol ac yn enwedig o safbwyntiau Cyllid a Thrawsnewid, sy'n elfennau canolog o waith y Pwyllgor.

Yr heriau i'r dyfodol

Nid oes arwydd o unrhyw fath fod y gwasgfydd ariannol sy'n pwysu ar yr Awdurdod yn lleihau. Mae hyn yn dal i effeithio ar ddarparu gwasanaethau ac mae'r modd y darperir gwasanaethau yn newid. Mae angen i gyfeiriad strategol a blaenoriaethau'r Cyngor ymateb i'r heriau ariannol, ac mae hyn yn dwysau'r angen am graffu er mwyn cysoni cynllunio corfforaethol ac ariannol â thrawsnewid.

Mae cysoni cynllunio corfforaethol ac ariannol â'r Rhaglen Drawsnewid yn her barhaus i'r Pwyllgor, ac mae'r Aelodau wedi mynegi pryderon ynghylch bod y cynlluniau'n uchelgeisiol o ystyried y cyllidebau sydd ar gael.

Gellir gwneud rhagor i fonitro'r perfformiad yn ystod y flwyddyn a'r modd y cyflawnir y Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Llesiant y Cyngor, ac i sicrhau bod ein Hamcanion Llesiant yn gyson â'r amcanion yng Nghynllun Llesiant Sir Benfro - a luniwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (yr oedd craffu arno yn arfer bod yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau ond a fydd bellach yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn unol â chynlluniau newydd ar gyfer 2019-20). Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae rheidrwydd ar y Cyngor yn rhinwedd bod yn gorff corfforaethol i gydymffurfio â gofynion statudol, ac mae gan y Pwyllgor rôl allweddol o ran rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth bwysig hon.

3. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau

Ei rôl a'i gylch gorchwyl

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau yw adolygu gweithgarwch lle mae'r Cyngor yn gweithio law yn llaw neu ar y cyd ag asiantaethau eraill, a chraffu ar hynny. Pennwyd mai gan y Pwyllgor hwn y mae'r cyfrifoldeb statudol dros graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) fel sy'n ofynnol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hynny yw prif ganolbwynt ei waith.

Yn ehangach mae ei gwmpas yn cynnwys trosolwg ar holl brif drefniadau partneriaeth strategol y Cyngor ynghyd â chraffu, lle bo hynny'n briodol, pan fo'r Cyngor yn gweithio ar y cyd i ddarparu neu i gomisiynu gwasanaethau yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. I'r perwyl hwn, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cwmpasu'r canlynol:

Craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Datblygu a llunio Asesiad Llesiant Lleol
- Datblygu a llunio Cynllun Llesiant
- Cynllun Blynyddol y BGC
- Gwaith a chynnydd y BGC o ran gweithredu ei flaenoriaethau
- Mynnu bod unrhyw aelod neu gyfranogwr a wahoddwyd gan y BGC, yn bresennol i roi tystiolaeth (dim ond ynghylch y swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddynt yn sgil bod yn aelodau o'r BGC).

Materion eraill:

- Partneriaethau Strategol
- Comisiynu Strategol ar y Cyd
- Partneriaethau Statudol (e.e. y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol)

Yr Aelodau

Y canlynol yw aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau:

Y Cyngorydd David Bryan, y Cadeirydd (Ceidwadwr)

Y Cyngorydd y Dr Simon Hancock, yr Is-gadeirydd (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cyngorydd Margot Bateman OBE (Annibynnol)

Y Cyngorydd Aden Brinn (Ceidwadwr)

Y Cyngorydd Joshua Beynon (Llafur)

Y Cyngorydd Vic Dennis (Llafur)

Y Cyngorydd Paul Dowson (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cyngorydd Stephen Joseph (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cyngorydd Phillip Kidney (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cyngorydd Pearl Llewellyn (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cyngorydd Myles Pepper (Annibynnol)

Y Cyngorydd Paul Rapi (Plaid Cymru)

Y Cyngorydd Kenneth Rowlands (Annibynnol)

Yr Aelodau Cyfetholedig:

Yr Uwcharolygydd Ross Evans, Heddlu Dyfed-Powys

Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru

Anna Bird, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Gwasanaeth Prawf Cymru

Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2018-19

Mehefin 2018

- Strategaeth Ddrafft Grŵp Strategol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Rhaglen Adsefydlu Unigolion Agored i Niwed o Syria
- Y Gwasanaethau Iechyd yn Sir Benfro
- Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n rhoi sylw i gydweithio â'r Trydydd Sector er mwyn darparu gwasanaethau i wella iechyd a lles
- Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2017-18
- Trefniadau Llywodraethu a Pherfformiad Partneriaethau Strategol

Hydref 2018

- Rhaglen Drawsnewid Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Rhoi Credyd Cynhwysol ar waith yn Sir Benfro
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro
- Ymateb gan Chris Grayling AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, ynghylch Ffoaduriaid o Syria

Ionawr 2019

- Cyllideb Ddrafft y Cyngor Sir 2019-20 a Chrynodeb o Gynllun Ariannol Cyfnod Canolig 2019/20 tan 2022/23
- Partneriaeth Cyrchfannau Sir Benfro
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro – thema Cymunedau
- Y Gwasanaethau Iechyd yn Sir Benfro
- Rhybudd o Gynnig ynghylch gweithredu mesurau arbennig o ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

- Atgyfeiriad gan y Cabinet ynghylch gwerthuso cynllun prawf Swyddog Cyswllt Cynghorau Tref
- Llythyr oddi wrth y Cynghorydd R Sinnett ynghylch llifogydd yn Lower Priory ac yn Havens Head

Chwefror 2019 Cyfarfod Eithriadol

- Llifogydd yn Lower Priory ac yn Havens Head

Mawrth 2018

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro – Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogi
- Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch rhoi Credyd Cynhwysol ar waith yn Sir Benfro
- Atgyfeiriad gan y Cabinet ynghylch gwerthuso cynllun prawf Swyddog Cyswllt Cynghorau Tref
- Llifogydd yn Lower Priory ac yn Havens Head

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn bwrw trosolwg ar y trefniadau cydweithio strategol yn Sir Benfro ac yn rhoi sicrwydd yn eu cylch drwy graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd y BGC er mwyn amlygu ymrwymiad y Pwyllgor i ymwneud â'r BGC a'i waith, ac yn sgil hynny mae'n gallu rhoi gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor ynghylch proses a manylion penderfyniadau'r BGC yn ogystal â rhoi rhagor o gyd-destun i'w waith. Yn ystod 2018-19 mae'r Pwyllgor wedi dechrau craffu ar ffrydiau gwaith datblygol Cynllun Llesiant y BGC ac mae wedi cynnal sesiynau gyda phartneriaid arweiniol y prosiect Cymunedau a'r prosiect Recriwtio a Chyflogi.

Cafodd grwpiau cymunedol sydd yn cefnogi adsefydlu ffoaduriaid o Syria yn Sir Benfro wahoddiad gan y Pwyllgor ym mis Mehefin y llynedd i gyflwyno tystiolaeth am eu gwaith a'u profiadau hyd hynny. Mae'r grwpiau cymunedol wedi gweithio'n ddiflino i oresgyn y materion oedd ynghlwm wrth gael cymorth ariannol gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac maent wedi gweithio gyda phartneriaid lleol i gynnig darpariaeth integredig a chyfannol i'r ffoaduriaid. Mae'r Pwyllgor yn deall y rhwystrau a wyneba ffoaduriaid wrth chwilio am waith ac ysgrifennodd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth er mwyn gofyn iddo ailystyried y rheol mai dim ond trwy'r Saesneg neu'r Gymraeg y gellir sefyll y profion theori gyrru. Ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol oedd pwysleisio'r materion diogelwch sydd yn gysylltiedig â phobl nad ydynt yn siaradwyr Saesneg neu Gymraeg yn gyrru yn y Deyrnas Gyfunol.

Yn ddiweddar gofynnodd y Cynghorydd Sinnett i'r Pwyllgor adolygu'r llifogydd oedd wedi effeithio ar Lower Priory a Havens Head ym mis Tachwedd 2018, gan roi sylw i ba mor effeithiol yr oedd wedi cydlynu'r cyd-ymateb gan y partneriaid a pha wersi y gellid eu dysgu yn sgil y digwyddiad. Cynhaliwyd cyfarfod eithriadol ym mis Chwefror i grynhoi tystiolaeth gan y partneriaid perthnasol a'r rhanddeiliaid eraill oedd yn gysylltiedig â'r mater. Estynnwyd gwahoddiad i'r trigolion lleol fod yn bresennol a chafwyd ganddynt gyflwyniadau a gwybodaeth am eu profiadau a'u pryderon. Cyflwynodd y Pwyllgor nifer o argymhellion i'r Cyngor a'r asiantaethau partner, a bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i'r rhaglen graffu dros y flwyddyn nesaf.

Yr heriau i'r dyfodol

Adolygwyd strwythurau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y Cyngor, ac mae'r Cyngor wedi penderfynu diddymu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau; fodd bynnag bydd rhai o'r heriau presennol y mae'r Pwyllgor wedi'u hwynebu yn dal i fod yn destun sylw gan y strwythur craffu diwygiedig.

Ailystyriar y modd y craffir ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n debygol y rhoddir prawf ar ddull craffu gwahanol er mwyn gwella'r dull craffu presennol. Yn gyffredinol derbynnir, o ystyried golwg cyfnod hir y Cynllun Llesiant a'r newidiadau systemig ac o ran y meddylfryd sy'n angenrheidiol i wireddu'r weledigaeth, na fydd hyn yn digwydd yn y cyfnod byr. Felly mae angen craffu ar waith y BGC mewn modd mwy amserol (yn hytrach nag ar ffurf eitem sefydlog), gan ddigwydd mewn modd mwy manwl, gyda golwg ar sicrhau bod effaith craffu yn cynyddu hyd yr eithaf ac er mwyn rhoi amlygrwydd i graffu o'r fath er mwyn iddo fod yn fwy ystyrlon.

Mae partneriaethau rhanbarthol yn dal i fod yn her o ran craffu oherwydd amrywiaeth a chymhlethdod y trefniadau llywodraethau a'r ardaloedd daearyddol gwahanol sy'n sail i'r cyfryw bartneriaethau. Mae Dinas Ranbarth Bae Abertawe wedi sefydlu pwyllgor craffu rhanbarthol sy'n cynnwys tri Aelod enwebedig o'r Cyngor. Mae gan Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) grŵp craffu o gynghorwyr sy'n dwyn Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ynghyd yn rhanbarthol er mwyn trafod materion cyffredin a materion sy'n destun pryder (goruchwylir y gwaith gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu). Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar ganol diffinio strwythurau llywodraethu priodol.

Yn hytrach na dim ond dyblygu trefniadau craffu rhanbarthol eraill, mae angen i graffu lleol ar bartneriaethau rhanbarthol ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn sydd orau i Sir Benfro, ynghyd â bod yn gyson â'r hyn sydd wedi'i sefydlu'n rhanbarthol eisoes ac ychwanegu gwerth at hynny.

4. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu

Ei rôl a'i gylch gorchwyl

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu yw craffu ar bolisiau, cynlluniau, a strategaethau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud yn eu cylch er mwyn cyfrannu at ansawdd a chadernid penderfyniadau'r Cabinet. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cwmpasu:

- Blaenraglen waith y Cabinet
- Cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau, trawsnewid a/neu arbedion effeithlonrwydd
- Aseidiadau Effaith Integredig
- Strategaethau a chynlluniau, pan fo hynny'n briodol
- Cynigion y gyllideb flynyddol

Yr Aelodau

Y canlynol yw aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu:

Y Cynghorydd Guy Woodham, y Cadeirydd (Llafur)

Y Cynghorydd Josh Beynon, yr Is-gadeirydd (Llafur)

Y Cynghorydd Tony Baron (Ceidwadwr)

Y Cynghorydd Michelle Bateman (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Kevin Doolin (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Paul Dowson (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Mike Evans (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Tim Evans (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Huw George (Annibynnol)

Y Cynghorydd Stan Hudson (Ceidwadwr)

Y Cynghorydd Mike James (Annibynnol)

Y Cynghorydd Elwyn Morse (Annibynnol)

Y Cynghorydd Rhys Sinnott (Plaid Cymru)

Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2018-19

Mae rhaglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau pwysig, gan gynnwys y gwaith parhaus o ran cefnogi'r newidiadau sylweddol i'r Gwasanaeth Gwastraff, y mae disgwyl iddynt gael eu cyflwyno cyn bo hir, ynghyd â sawl darn o waith o ran Rhaglen Drawsnewid y Cyngor.

Yn ogystal mae'r Aelodau yn ymwneud ag adolygiad helaeth o sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gweithredu ei Ffermydd Sirol. Hefyd mae'r Pwyllgor wedi sefydlu Panel

Cyllid sy'n galluogi cynghorwyr nad ydynt yn Aelodau Gweithrediaeth i ymwneud â datblygu cyllideb y Cyngor a'r cynigion Treth Gyngor.

Hefyd mae gan y Pwyllgor rôl allweddol o ran craffu ar bolisiau a strategaethau'r Cyngor cyn iddynt gael eu mabwysiadu, ac mae wedi gwneud cyfraniad pwysig at gryfhau llawer o'r dogfennau allweddol hyn drwy gydol y flwyddyn.

Wrth i gyllid y Cyngor grebachu o hyd mewn termau real ac wrth i'r Cabinet wynebu penderfyniadau mwyfwy anodd a heriol ynghylch sut ac ymhle i ddyrannu adnoddau a beth fydd ffurf gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu yn gyfrwng sy'n galluogi cynghorwyr nad ydynt yn Aelodau Gweithrediaeth i gael llais ac i gynrychioli barn trigolion a mynegi eu pryderon.

Gorffennaf 2018

- Strategaeth y Gwasanaeth Hamdden
- Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2017-18

Medi 2018

- Adolygu'r Polisi Ffermydd Sirol
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi Diogelu Data
- Adroddiad diweddarau'r Gweithgor Gwastraff
- Diweddariad gan y Panel Cyllid
- Adroddiad ynghylch Trosolwg a Chraffu gan Swyddfa Archwilio Cymru

Tachwedd 2018

- Strategaeth Ffaffriedig y Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Adnoddau Dynol a Phobl
- Adolygiad o Grant Gwella Sir Benfro
- Datblygu Cyllideb y Cyngor 2019-20
- Polisi Adennill Dyledion Corfforaethol
- Strategaeth Ddigartrefedd

Ionawr 2019

- Cyllideb Ddrafft y Cyngor Sir 2019-20 a Chrynodeb o Gynllun Ariannol Cyfnod Canolig 2019/20 tan 2022/23
- Côt Ymddygiad Gweithwyr

Mawrth 2019

- Datganiad ynghylch Polisi Cyflogau 2019-20
- Strategaeth Toiledau Lleol
- Adroddiad interim gan y gweithgor ynghylch Adolygu'r Polisi Ffermydd Sirol
- Adroddiad diweddarau'r Gweithgor Gwastraff

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Prif swyddogaethau'r Pwyllgor yw sicrhau bod cynghorwyr nad ydynt yn Aelodau Gweithrediaeth yn ymwneud yn effeithiol â datblygu'r prif gynigion - a hynny drwy herio adeiladol manwl a phriodol cyn i'r Cabinet wneud penderfyniadau - ac yn ymwneud hefyd â datblygu ac adolygu polisiau a strategaethau'r Cyngor. Drwy ddefnyddio ei bwysau a'i ddylanwad cadarnhaol mae'r Pwyllgor yn cyfrannu at drefn gwneud penderfyniadau ac at fframwaith polisiau sy'n gadarnach ac sy'n llwyr gynrychioli anghenion a phryderon trigolion Sir Benfro.

Er bod llawer o waith y Pwyllgor yn digwydd mewn cyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol, mae rhywfaint o'i waith mwyaf effeithiol yn digwydd o ganlyniad i sefydlu gweithgorau sy'n gweithredu ar ran y Pwyllgor llawn. Mae'r gweithgorau hyn yn galluogi'r Aelodau i archwilio'n drylwyr ac i ddeall y sail resymegol a'r sbardunau dros newidiadau sylweddol posibl i wasanaethau neu bolisiau, gan wneud hynny yn y fath fodd manwl sy'n amhosibl mewn cyfarfod Pwyllgor un-tro. Drwy ddefnyddio gweithgorau mae'r Pwyllgor llawn yn gallu gwneud argymhellion clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Ar hyn o bryd mae 3 gweithgor yn weithredol gan y Pwyllgor. Mae gan ddau o'r rhain rôl allweddol o ran cefnogi prif gynlluniau newid ynghylch y Gwasanaeth Gwastraff ac o ran adolygu ymagwedd y Cyngor at reoli'n well ei ystâd Ffermydd Sirol yn y dyfodol. Mae'r trydydd gweithgor yn cydweithio'n agos â'r Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau i ddatblygu cyllideb y Cyngor a'r cynigion Treth Gyngor.

O ganlyniad i gyfraniad gweithgar yr Aelod perthnasol o'r Cabinet, mae gan y Pwyllgor rôl bwysig mewn perthynas â Rhaglen Drawsnewid y Cyngor. Yn ogystal mae gan y Pwyllgor gysylltiadau presennol a datblygol ag elfennau pwysig o waith mewn perthynas ag Adnoddau Dynol a Chyfathrebu, ac mae'n ymwneud â thrawsnewid swyddogaeth TG a darpariaeth ddigidol y Cyngor.

Yr heriau i'r dyfodol

O gofio ei swyddogaeth cyn penderfynu, mae angen i raglen waith y Pwyllgor fod yn gwbl gyson â rhaglen waith y Cabinet fel y caniateir digon o amser yn y broses gwneud penderfyniadau i alluogi'r Pwyllgor i ymgymryd â'i waith mewn modd amserol ar sail gwybodaeth. Gellir dal i wella elfennau o'r broses hon, yn enwedig o ran sicrhau y

neilltuir digon o amser i graffu'n fanwl ac yn ddigonol ar gynigion fel bod unrhyw argymhellion a wna'r Pwyllgor yn seiliedig yn briodol ar dystiolaeth.

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn dal i fod yn faes y gellir ei wella ac mae'r Pwyllgor, fel rhan o'i waith craffu, yn awyddus i glywed gan y cyhoedd er mwyn sicrhau bod ei waith crynhoi tystiolaeth yn rhoi golwg fwy crwn ar y materion sydd fwyaf pwysig i bobl. Wrth i'r Cyngor ddal i esblygu a newid dros y 12 mis nesaf, mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn deall yr effaith bosibl ar y bobl hynny y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, fel y gall y Pwyllgor ystyried hynny.

Yn olaf, ac fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, rhaid nodi parodrwydd Aelodau'r Cabinet i ymgysylltu'n flaenweithredol â gwaith y Pwyllgor, ac mae hynny'n arwydd pendant o'r ymrwymiad i'r broses ac yn amlygu dealltwriaeth o'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu drwy broses graffu effeithiol. Mae'r berthynas gadarnhaol sydd wedi'i ffurfio drwy'r broses graffu rhwng yr Aelodau Gweithrediaeth a'r cynghorwyr nad ydynt yn Aelodau Gweithrediaeth, yn arwydd bod y trefniadau llywodraethau yn y Cyngor yn gwella ac yn amlygu bod cydweithio yn rhoi bod i well penderfyniadau; mae hynny yn ei dro yn sicrhau y darperir gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i bobl Sir Benfro.

5. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu

Ei rôl a'i gylch gorchwyl

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu yw adolygu'r gwasanaethau a ddarperir i wella canlyniadau plant a phobl ifanc, y cymorth sydd ar gael i ieuencid, a gwasanaethau eraill yn y gymuned gan gynnwys Dysgu Oedolion, a chraffu ar y rhain oll ynghyd â chefnogi codi safonau addysgol a chanlyniadau i ddysgwyr.

Mae cylch gorchwyl a chwmpas y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- Canlyniadau addysgol pob oedran, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4
- Categoriaddio ysgolion
- Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
- Ysgolion unigol (trwy Banel Craffu ar Ysgolion)
- Gwasanaethau Cynhwysiad
- Cymorth i ieuencid a gwasanaethau eraill yn y gymuned
- Dysgu, sgiliau a hyfforddiant ôl-16
- Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag ysgolion a dysgu
- Diogelu ym maes Addysg

Yr Aelodau

Mae gan y Pwyllgor 13 o Aelodau a 4 o aelodau cyfetholedig statudol fel a ganlyn:

Y Cynghorydd John Davies, y Cadeirydd (Annibynnol)
Y Cynghorydd Paul Rapi, yr Is-gadeirydd (Plaid Cymru)
Y Cynghorydd Michelle Bateman (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cynghorydd Vic Dennis (Llafur)
Y Cynghorydd Mike Evans (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cynghorydd Paul Harries (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cynghorydd Stanley Hudson MBE (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Mike James (Annibynnol)
Y Cynghorydd Ken Rowlands (Annibynnol)
Y Cynghorydd Mike Stoddart (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cynghorydd Viv Stoddart (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)
Y Cynghorydd Alison Tudor (Llafur)
Y Cynghorydd Steve Yelland (Ceidwadwr)

Yr Aelodau Cyfetholedig:

Y Parchedig Brian Douglas Witt (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru)
Mr Paul White (Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig)

Mr Philip Williams (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr)
Lle gwag (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr)

Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2018-19

Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar ystod eang ac amrywiol o bynciau ynghylch ysgolion yn ystod 2018-19, yn ogystal â hoelio sylw yn flynyddol ar Ddiogelu ym Maes Addysg ac ERW, ac ar waith y Panel Craffu ar Ysgolion, sydd wedi ymweld ag Ysgol Greenhill ac Ysgol Croes-goch. Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn craffu ar y canlynol:

Mehefin 2018

- Gallu Adnoddau Dynol i gefnogi ysgolion
- Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2017-18

Gorffennaf 2018 (Cyfarfod Eithriadol)

- Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg – Dewis safle Hwlfordd

Medi 2018

- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Darparu Addysg ôl-16 yn Sir Benfro
- Sefyll Arholiadau yn Gynnar
- Perfformiad CA4 a CA5 yn 2018
- Diogelu ym maes Addysg

Tachwedd 2018

- Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Hunanwerthuso Estyn
- Cyllidebau Ysgolion 2019-20
- Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Cyllido Ysgolion yng Nghymru

Ionawr 2019

- Cyllideb Ddrafft y Cyngor Sir 2019-20 a Chrynodeb o Gynllun Ariannol Cyfnod Canolig 2019/20 tan 2022/23
- Cymorth ERW i Ysgolion Sir Benfro
- Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro
- Adroddiadau'r Panel Craffu ar Ysgolion

Ebrill 2019

- Y Gwasanaeth Prydau Ysgolion
- Data ynghylch Absenoldeb Staff Ysgolion
- Athrawon Cyflenwi
- Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd

Ar gyfer 2019-20 bydd y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch Cynllun Gwella'r Gyfarwyddiaeth, a defnyddir y rhain wrth lunio Blaenraglen Waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn nesaf ac i fod yn ganolbwynt i'r meysydd datblygu yn y gyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion.

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Mae'r Pwyllgor Ysgolion a Dysgu wedi craffu ar amrywiaeth o ddata perfformiad yn ystod y flwyddyn, ac mae gwaith ERW yn dal i gael ei fonitro'n flynyddol.

Bydd y wybodaeth fu dan sylw gan y Pwyllgor yn ei helpu i ddatblygu ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae casgliadau ymweliad y Panel Craffu ar Ysgolion ag Ysgol Greenhill wedi clustnodi maes gwaith arall i'r Pwyllgor graffu rhagor arno yn ystod 2019-20 sef ynghylch rheoli ymddygiad yn yr ysgolion. Mae'r ymweliad ag Ysgol Croes-goch wedi galluogi Aelodau'r Panel i weld drostynt eu hunain y camau cadarnhaol a gymerwyd gan yr ysgol er mwyn camu ymlaen ar ôl cyfnod ansicr, ac yr oedd ymrwymiad Corff Llywodraethu yr Ysgol i'r daith hon yn destun sicrwydd i'r Aelodau. Yn y naill ysgol a'r llall yr oedd ymwneud y disgyblion â bywyd yr ysgol ynghyd â'r cyfleoedd i'r disgyblion leisio barn wedi gwneud argraff ar y Panel.

Ym mis Medi 2018 cafodd y Pwyllgor gyfle eto i graffu ar fater sefyll arholiadau yn gynnar, a oedd yn destun cais gan y cyhoedd am fater craffu yn ystod 2017-18, ac i ofyn am sicrwydd ynghylch bod llai o ddisgyblion yn sefyll arholiadau yn gynnar yn sgil newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru. Hefyd, ym mis Tachwedd 2018, ymatebodd y Pwyllgor i'r ymgynghoriad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch cyllido ysgolion gan amlinellu rhai o bryderon y Pwyllgor ynghylch y modd y cyfrifir cyllid.

I gloi, tra oedd yn trafod cyllideb y Cyngor Sir ar gyfer 2019-20 yng nghyfarfod Ionawr 2019, bu i'r Pwyllgor argymhell defnyddio cyllid digonol, a hynny o unrhyw gyllideb heb ei dyrannu, i gefnogi ac i gynnal grwpiau ieuenctid cymunedol dros y 12 mis nesaf, gan wneud hynny ochr yn ochr â chwilio am ffynonellau cyllido a darparu eraill. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Cabinet a'i gynnwys yn ddiweddarach yn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor, a thrwy wneud hynny yr oedd y Pwyllgor wedi helpu i sicrhau bod dyfodol i'r adnoddau gwerthfawr hyn a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc.

Trwy lunio rhaglenni gwaith a thrwy gadw golwg ar ganlyniadau addysgol a data perthnasol arall, bydd y Pwyllgor yn dal i sicrhau bod trosolwg a herio priodol gan yr Aelodau o ran perfformiad ysgolion, safonau addysgol a chanlyniadau'r holl ddysgwyr, a bod ERW yn darparu'r cymorth priodol i Ysgolion Sir Benfro.

Yr heriau i'r dyfodol

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd y Pwyllgor yn defnyddio Cynllun Gwella'r Gyfarwyddiaeth, data ynghylch canlyniadau addysgol, Adroddiadau Estyn a gwybodaeth am y blaenoriaethau Adrannol i lunio a monitro ei raglen waith.

Yn benodol mae dau faes gwaith heriol y bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw iddynt yn ystod y misoedd nesaf. Y cyntaf o'r rhain fydd craffu ar y paratodau ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yn 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn golygu y bydd newidiadau enfawr i'r modd y caiff disgyblion eu haddysgu. Yn ogystal bydd pwyslais cynyddol ar arfogi pobl ifanc ar gyfer eu bywydau drwy hoelio sylw ar eu gallu i ddysgu sgiliau newydd ac i gymhwyso gwybodaeth bynciol mewn modd mwy cadarnhaol a chreadigol. Bydd y cwricwlwm newydd yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor tra bydd yn cael ei roi ar waith.

Yn ail, bydd y Pwyllgor yn rhoi rhagor o sylw i'r ddarpariaeth cludiant i'r ysgol i ddysgwyr ôl-16. Darperir hyn yn ddi-dâl ar hyn o bryd ond, oherwydd gwasgfeydd ariannol, ni ellir gwarantu hynny yn y dyfodol a gallai hynny effeithio ar gynaliadwyedd dosbarthiadau chwech ysgolion Sir Benfro.

6. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau

Ei rôl a'i gylch gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau yn adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i'w gwsmeriaid. Er mwyn penderfynu ar ei flaenoriaethau mae'r Pwyllgor yn cloriannu ansawdd a pherfformiad gwasanaethau'r Cyngor, gan ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth reoli gan gynnwys Cynlluniau Trawsnewid Gwasanaethau, mesurau perfformiad, risg busnes, ac adroddiadau arolygu/rheoleiddio allanol.

Yn benodol mae cylch gorchwyl a chwmpas y Pwyllgor yn cynnwys y gwasanaethau canlynol gan y Cyngor (a'r isadrannau sydd ynddynt);

- Priffyrdd ac Adeiladu
- Yr Amgylchedd ac Argyfyngau Sifil
- Tai
- Cynllunio
- Eiddo
- Amddiffyn y Cyhoedd
- Adfywio
- Y Gwasanaethau Diwylliannol a Hamdden
- Gofal Oedolion
- Y Gwasanaethau Plant

Yr Aelodau

Y canlynol yw aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau:

Y Cynghorydd Rob Summons, y Cadeirydd (Ceidwadwr)

Y Cynghorydd Jonathan Preston, yr Is-gadeirydd (Plaid Cymru)

Y Cynghorydd Jamie Adams (Annibynnol)

Y Cynghorydd Di Clements (Ceidwadwr)

Y Cynghorydd John Cole (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Tim Evans (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Brian Hall (Annibynnol)

Y Cynghorydd Simon Hancock (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Stephen Joseph (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Phillip Kidney (Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp)

Y Cynghorydd Thomas Tudor (Llafur)

Y Cynghorydd David Pugh (Annibynnol)

Y Cynghorydd Tony Wilcox (Llafur)

Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2018-19

Mae'r Flaenraglen Waith yn arf pwysig i'r Pwyllgor, gan ei helpu i flaenoriaethu ei lwyth gwaith a sicrhau, hyd y gellir, fod gwaith y Pwyllgor yn ychwanegu gwerth at waith y Cyngor ac yn cyfrannu at wella gwasanaethau'r Cyngor i'r trigolion drwy gefnogi a herio mewn modd priodol a chymesur.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Pwyllgor wedi craffu ar amrywiaeth o wasanaethau gan fwrw ati'n weithgar i fonitro'r wybodaeth am Berfformiad Gwasanaeth, a gesglir yn chwarterol yn achos holl wasanaethau'r Awdurdod, ac yn sgil hynny yr oedd materion wedi'u clustnodi. Mae gan Aelodau'r Pwyllgor fynediad electronig i'r wybodaeth hon i'w galluogi i fonitro'r wybodaeth ddiweddaraf rhwng cyfarfodydd ac er mwyn bod y Pwyllgor yn cael gwybod am faterion sy'n destun gofid a ddaw i'r amlwg.

Drwy edrych ar berfformiad y gwasanaethau dros nifer o fisoedd, gwelodd y Pwyllgor fod nifer o faterion oedd yn peri pryder ynghylch gwasanaethau neu feysydd gwasanaeth penodol, a gofynnodd am i'r rhain gael eu rhoi gerbron y Pwyllgor, fel a ganlyn;

Mehefin 2018

- Diweddariad ynghylch Diogelu'r Cyhoedd a Gorfodaeth

Medi 2018

- Mesurau Perfformiad Cenedlaethol 2017-18

Medi 2018 (Galw i mewn)

- Prynu Siop Adrannol Ocky White gynt

Tachwedd 2018

- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Y Gwasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd

Ionawr 2019

- Cyllideb y Cyngor Sir 2019-20 a Chrynodeb o Gynllun Ariannol Cyfnod Canolig 2019-20 tan 2022-23
- Polisi Taliadau Rhenti a Gwasanaethau y Cyfrif Refeniw Tai 2019-20

- Y Gwasanaeth Adfywio

Ebrill 2019

- Y Gwasanaeth Cynllunio
- Y Fenter Gorfodi Preifat - *District Enforcement*

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Mae amlygu canlyniadau a gwelliannau gweladwy o ganlyniad i graffu yn gallu bod yn anodd, gan mai'r ffordd orau o ystyried y broses graffu yw fel un offeryn ymhlith amrywiaeth o fesurau sy'n dwyn pwysau cadarnhaol ac yn herio ac sydd, yn y pen draw, yn rhoi bod i welliannau.

Enghraifft dda o'r dylanwad cadarnhaol a all ddeillio o'r broses graffu yw penderfyniad y Cabinet ym mis Medi 2018 ynghylch prynu Siop Adrannol Ocky White gynt yn Hwlfordd. Galwyd y penderfyniad i mewn a'i drafod mewn Cyfarfod Eithriadol o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau ddiwedd Medi 2018. Ar ôl cynnal sesiwn craffu trylwyr a manwl pryd y rhoddwyd sylw i amrywiaeth o dystiolaeth ac i safbwyntiau a phryderon nifer o randdeiliaid, penderfynodd y Pwyllgor nad oedd pris prynu'r adeilad yn cynnig gwerth yr arian. Ar ôl i'r mater gael ei gyfeirio'n ôl at y Cabinet lleihawyd yn sylweddol y pris prynu oedd wedi'i gynnig i'r Cyngor. Er nad oes modd dweud mai ymyrraeth y Pwyllgor oedd yr unig reswm dros y lleihad hwn, yn ddiamheuaeth yr oedd gan y broses graffu gyfraniad cadarnhaol o ran bod y Cyngor yn cael gwell canlyniad ac felly'n sicrhau bod trigolion Sir Benfro ar eu hennill.

Mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw ddwywaith i'r Fenter Gorfodi Preifat yn ei gyfarfodydd – y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2018 fel rhan o'r diweddariad ynghylch Amddiffyn y Cyhoedd ac unwaith eto ym mis Ebrill 2019 ar ffurf eitem benodol ynghylch perfformiad a gweithredu'r drefn orfodi newydd. Cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw i sefydlu gweithgor cyfnod byr i roi sylw i'r contract presennol a hefyd i ystyried cwynion, perfformiad ac awgrymiadau ynghylch gwelliannau yn y dyfodol. Bydd gwaith y gweithgor hwn yn cyfrannu at y broses adolygu'r contract, gan helpu i ddatblygu'r gwasanaeth sydd orau ar gyfer anghenion a disgwyliadau trigolion Sir Benfro.

Trwy ei raglen waith a thrwy gadw golwg ar yr holl wybodaeth perfformiad gwasanaeth, bydd y Pwyllgor yn dal i sicrhau bod trosolwg a herio priodol gan yr Aelodau mewn perthynas â pherfformiad a darparu'r gwasanaethau.


Yr heriau i'r dyfodol

Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd y Pwyllgor yn dal i ddefnyddio'r wybodaeth perfformiad berthnasol am y gwasanaethau er mwyn penderfynu ar ei raglen waith, gan hoelio sylw'n benodol ar y gwasanaethau y gwelir eu bod yn tanberfformio. Yn ogystal, wrth i'r Rhaglen Drawsnewid gamu ymlaen yn gyflym, bydd cyfleoedd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau gael cylch gorchwyl ehangach o ran craffu a bwrw llinyn mesur ar effeithiau'r newidiadau i'r gwasanaethau yn sgil y Rhaglen, ac o ran sut y gallai'r rhain effeithio ar ansawdd y gwasanaethau sy'n dod i ran trigolion Sir Benfro.

7. Arolwg o'r Aelodau

Am y tro cyntaf erioed, gofynnwyd eleni i'r Aelodau ymateb i arolwg a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o ffactorau ynghylch swyddogaeth a gweithrediad y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Yr oedd y gyfradd ymateb i'r arolwg yn 65% sy'n gadarnhaol iawn; mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn y rhan fwyaf o'r Aelodau i ddal i weithio i gryfhau effeithiolrwydd craffu, ac yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan yr Aelodau yn y broses.


Cyflwynir data'r arolwg isod ynghyd â sylwadaeth eang a grynhowyd o rai o'r sylwadau a gyflwynwyd gan yr Aelodau yn eu hymatebion.



Mae 73% o'r ymatebwyr yn barnu bod y craffu yn effeithiol iawn neu'n effeithiol. Mae 11% yn barnu ei fod yn aneffeithiol.

**BETH YW EICH BARN CHI AM NIFER YR
EITEMAU SYDD AR AGENDA'R CYFARFODYDD
TROSOLWG A CHRAFFU?**

■ Gormod o eitemau ■ Tua'r nifer priodol ■ Dim digon o eitemau




Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch nifer yr eitemau ar agendâu'r Pwyllgorau, mae 73% o'r ymatebwyr yn barnu bod y nifer yn briodol, mae 16% yn barnu bod gormod o eitemau ac mae 11% yn barnu nad oes digon.

Pan edrychir yn fanylach ar y sylwadau mae'n amlwg bod teimlad cyffredinol fod y gweithredu ar draws y Pwyllgorau yn anghyson ac yn amrywio, a bod gan rai Pwyllgorau agendâu a rhaglenni gwaith llawnach nag eraill. Mae angen gwneud rhagor o waith i flaenoriaethu'n well y pynciau sydd dan sylw ar yr agendâu craffu ac i sicrhau bod y Pwyllgorau yn hoelio sylw ar yr hyn sydd o bwys.

**BETH YW EICH BARN CHI AM ANSAWDD YR
ADRODDIADAU CRAFU A RODDIR I'R
AELODAU CRAFFU?**


■ Da iawn ■ Da ■ Digonol ■ Gwael ■ Gwael iawn



Yn gyffredinol awgryma'r ymatebion fod yr Aelodau yn fodlon ar ansawdd yr adroddiadau a gânt yn sail i'w trafodaethau yn y Pwyllgorau. Dywed 70% fod y rhain naill ai'n dda iawn neu'n dda. Fodd bynnag barn 27% yw mai digonol yn unig yw ansawdd yr adroddiadau sy'n awgrymu y gellid gwella'r ddarpariaeth hon, ac mae rhai o'r sylwadau yn ategu hyn, gan ddweud bod anghysondeb a gwahaniaethau o ran yr adroddiadau y mae'r Aelodau yn eu cael.


**A YW'R AELODAU YN CAEL Y WYBODAETH
SYDD EI HANGEN ARNYNT I GRAFFU'N
EFFEITHIOL?**

■ Bob amser ■ Fel rheol ■ Weithiau ■ Yn anaml ■ Byth



sylwadau yn nodi, os nad oedd gwybodaeth ar gael yn yr adroddiadau, fod y swyddogion yn barod i estyn cymorth ac egluro materion, a hynny drwy ymateb i gwestiynau yn y cyfarfod neu drwy e-bost ar ôl y cyfarfod.


BETH YW EICH BARN CHI AM GYFRANIAD AELODAU'R CABINET?



Dywed 73% o'r ymatebwyr fod cyfraniad Aelodau'r Cabinet at y broses graffu naill ai yn dda iawn neu'n dda. Mae'r ymateb hwn yn un cadarnhaol ac mae newid pendant wedi bod yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan ein bod wedi gweld bod y Cabinet yn ymwneud yn fwy blaenweithredol â gwaith y Pwyllgorau, yn enwedig o ran cyflwyno adroddiadau ac o ran bod y cyntaf i ateb cwestiynau.



BETH YW EICH BARN CHI AM GYFRANIAD Y SWYDDOGION?

- Da iawn
- Da
- Digon da
- Gwael
- Gwael iawn
- Dwi ddim am fynegi barn



Mae'r rhan fwyaf o ddigon o'r ymatebwyr (86%) yn barnu bod cyfraniad y swyddogion yn y cyfarfodydd craffu naill ai'n dda iawn neu'n dda.


BETH YW EICH BARN CHI AM Y CYMORTH RODDIR I'R AELODAU GAN Y TÎM CYMORTH CRAFFU?



Mae 92% o'r ymatebwyr yn barnu bod y Tîm Cymorth Craffu yn dda iawn neu'n dda o ran estyn cefnogaeth mewn perthynas â gwaith y Pwyllgorau, ac mae'r ymatebwyr eraill (8%) yn barnu bod y gefnogaeth o leiaf yn ddigonol.

PA WAHANIAETH WNAETH Y BROSES GRAFFU YN YSTOD Y 12 MIS DIWETHAF?

■ Llawer iawn ■ Tipyn ■ Rhywfaint ■ Ychydig ■ Dim o gwbl



Mae 45% o'r ymatebwyr yn barnu bod y broses graffu wedi gwneud gwahaniaeth mawr iawn neu wahaniaeth mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae 50% yn barnu bod y broses graffu wedi gwneud gwahaniaeth cymedrol neu wahaniaeth bach. Barn 5% yw bod y broses graffu heb wneud gwahaniaeth.

Yn eu sylwadau, yn gyffredinol dywedodd yr Aelodau fod y gweithgorau (e.e. y Gweithgor Gwastraff) wedi ychwanegu gwerth, hefyd maent yn cyfeirio at bynciau craffu penodol megis y llifogydd yn Aberdaugleddau a phrynu adeilad Ocky White.

8. Edrych Ymlaen at 2019-20

Mae'r Cyngor wedi ymdrechu'n sylweddol ac yn benodol i wella'r swyddogaeth graffu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Er gwaetha'r gwelliannau gwirioneddol a'r cynnydd da a welsom mewn nifer o feysydd, mae gwaith i'w wneud o hyd o ran dal i gryfhau a sefydlu'r swyddogaeth graffu yn y Cyngor a hynny er mwyn ymateb i'r heriau presennol a'r heriau yn y dyfodol ac er mwyn gwireddu ein huchelgais o ran cael ein hystyried ymhlith y cyngorau gorau eu perfformiad yng Nghymru.

Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn hoelio ein sylw ar wella'r meysydd cysylltiedig canlynol:

Gweithredu'r model craffu diwygiedig

Rhodddwyd model presennol y Cyngor ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar waith ar ffurf cynllun prawf ym mis Medi 2016, a chomisiynodd y Cyngor ymgynghorydd o'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i gefnogi gweithredu a gwerthuso'r model craffu newydd. Bu'r Cyngor yn ystyried canlyniadau'r adolygiad o'r cyfnod prawf yn Rhagfyr 2018 a chytunodd mewn egwyddor i ddiwygio rhywfaint ar y model craffu. Y newid mwyaf arwyddocaol o blith y newidiadau arfaethedig hyn oedd diddymu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau a bod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol newydd yn cymryd ei le o fis Mai 2019 ymlaen.

Yr Aelodau etholedig fu'n arwain datblygu'r model diwygiedig ac yn berchen ar y broses honno. Gwnaed hynny drwy Weithgor Craffu y pennwyd iddo'r dasg o gynnal gwaith archwilio manwl er mwyn clustnodi a diffinio cylch gwaith, cwmpas a chylch gorchwyl pob Pwyllgor ynghyd ag ystyried unrhyw ffactorau perthnasol eraill, megis y ddyletswydd statudol i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac ymhle y dylid lleoli hynny. Bu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn ystyried adroddiad ac argymhellion y Gweithgor Craffu ym mis Ebrill 2019 a chytunodd y Cyngor arnynt ym mis Mai 2019.

Mae cyflwyno'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol yn golygu bod y ddarpariaeth o ran craffu gan yr Aelodau yn gydradd ag Ysgolion a Dysgu. Mae hyn yn ymateb i bryderon blaenorol gan yr Aelodau ynghylch nad oedd gan yr agenda gofal cymdeithasol broffil na chanolbwynt digonol o dan y model presennol. O ystyried mai'r gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a'r gyfarwyddiaeth Ysgolion a Dysgu yw'r cyfarwyddiaethau sydd â'r gwariant mwyaf o ran gwariant y Cyngor, a hynny o gryn dipyn, ac sy'n gyfrifol am ddarparu llawer o'i brif wasanaethau statudol, mae'n gwbl briodol bod yr Aelodau yn cael cyfle i graffu'n fanwl iawn ar y meysydd hyn.

Mae'r prif newid arall yn sgil diwygio'r model craffu yn ymwneud â dyletswydd statudol y Cyngor i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Gan fod oes y

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau yn dod i ben, mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, a gweithredir y swyddogaeth (ar ffurf trefniant prawf i gychwyn) drwy Banel Partneriaethau sefydlog a fydd yn rhoi adroddiadau i'w riant Bwyllgor ynghylch canlyniadau craffu ar y BGC yn ogystal â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r model diwygiedig yr oedd y Cyngor wedi cytuno arno ym mis Mai yn glo ar gyfnod o adolygu, cyfnod prawf a chyfnod o werthuso'r strwythurau craffu sydd wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Mae'n bwysig bod y model diwygiedig yn cael amser i ennill ei blwyf a bod modd i ganolbwynt ein hymdrechion ar y cyd ddechrau symud o'r strwythurau tuag at ymdrech ddwys i wella'r arferion gweithredu ynghyd ag effeithiolrwydd cyffredinol y swyddogaeth.

Rhoi'r Cynllun Gweithredu Gwella Craffu ar waith

Cyfnethodd gwahanol drywyddau'r gwaith gwella craffu ar ffurf un Cynllun Gweithredu Gwella Craffu gan gwmpasu'r canlynol:

- camau gweithredu ynghylch y gwaith llunio 'gweledigaeth' a wnaed gan yr ymgynghorydd o *Public Governance Wales*
- camau paratoi er mwyn gweithredu'r model diwygiedig o fis Mai 2019 ymlaen
- camau gweithredu mewn ymateb i'r cynlluniau gwella yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru "Barod at y dyfodol?"
- camau gweithredu heb eu cwblhau mewn perthynas â gwaith gwella craffu blaenorol

Bwriedir i'r cynllun gweithredu wella effeithiolrwydd y gwaith craffu, ac mae'n canolbwyntio ar y pedair prif thema sef Meddylfryd, Gweithredu, Strwythur (cwblhawyd) ac Ymgysylltu. Mae rhai o'r prif flaenoriaethau yn y cynllun yn hoelio sylw ar gryfhau perchenogaeth ar y cyd ar wella craffu ar draws y Cyngor (y Cabinet, yr aelodau craffu a'r Tîm Rheoli Corfforaethol), ac ar gefnogi'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion i wella eu perfformiad fel unigolion a'u cyd-berfformiad fel hyrwyddwyr arferion craffu da yn yr Awdurdod.

Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sydd â throsolwg dros y Cynllun Gweithredu Gwella Craffu, ac sy'n monitro'r cynnydd mewn perthynas â sicrhau bod y craffu yn digwydd mewn modd mwy effeithiol a hynny drwy gadw golwg yn rheolaidd ar y modd y gweithredir y cynllun.

9. Cymryd Rhan

Mae ymgysylltu â'r dinasyddion yn elfen hanfodol o graffu effeithiol gan fod hynny'n golygu bod modd clywed 'llais' y bobl a'r cymunedau lleol fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisiau.

Gall pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Sir ymwneud â hyn oll mewn nifer o ffyrdd. Mae blaenraglenni gwaith ar gael ar y tudalennau Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor; diweddarir y rhain ar ôl pob rownd o gyfarfodydd y Pwyllgorau fel bod y cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwaith pob Pwyllgor. Mae modd i drigolion fynegi barn i'r Pwyllgor perthnasol am unrhyw bwnc sy'n destun Craffu.

Mae ffurflenni ar gael ar y wefan i alluogi pobl i gyflwyno eu sylwadau ar unrhyw fater y trefnwyd eisoes fod Pwyllgor yn ei ystyried, neu i awgrymu pynciau i'w hystyried gan Bwyllgor. Yn ogystal mae protocol ar gyfer annerch Pwyllgor ar gael i'r sawl a wahoddir i fod yn bresennol i gyflwyno sylwadau.

Cysylltwch â'r Tîm Cymorth Partneriaethau a Chraffu i gael rhagor o wybodaeth:

Scrutiny@pembrokeshire.gov.uk

Nick Evans

Y Rheolwr Cymorth Partneriaethau a Chraffu

01437 775858

nicholas.evans@pembrokeshire.gov.uk

Lynne Richards

Y Cydlynnydd Cymorth Partneriaethau a Chraffu

01437 776252

lynne.richards@pembrokeshire.gov.uk